**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 13 MEHEFIN 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 13 Mehefin 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Dolphin, Ian Hodge, Ray Hughes, Hilary McGuill, Vicky Perfect, Dan Rose, a Roy Wakelam

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Teresa Carberry ar ran y Cynghorydd Richard Lloyd, a'r Cynghorydd Tina Claydon ar ran y Cynghorydd Mel Buckley, a'r Cynghorydd Dennis Hutchinson ar ran y Cynghorydd Mike Peers

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd) y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol), y Cynghorydd David Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi), Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant, Cymunedau Gwydn, gan gynnwys Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant). Ar gyfer cofnod rhif 13 Henry Aron, Uchelgais Gogledd Cymru, Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel.

**YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 10. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 11. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2023.

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Ian Hodge a'r Cynghorydd Dan Rose.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi fel cofnod cywir.

## 12. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu. Nododd y byddai eitem ychwanegol, y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2023.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a oedd wedi ei atodi i'r adroddiad, a dywedodd fod y camau a oedd yn weddill wedi eu cwblhau.  Tynnodd sylw at y gweithdai a gynhelir ar 18 Hydref 2023 ar yr Adolygiad o Strategaeth Gludiant Integredig Cyngor Sir y Fflint.

Gwahoddwyd yr Aelodau i godi unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu cynnwys ar y Rhaglen.

Awgrymodd y Cynghorydd Chris Dolphin y dylid ychwanegu eitem ar gyfer darparu data ar nifer y cerbydau casglu gwastraff sy'n torri lawr at y Rhaglen. Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) bod rhai problemau gweithredol wedi bod a dywedodd y byddai'r Rheolwr Gwasanaeth yn cysylltu â'r Cynghorydd Dolphin i drefnu cyfarfod i drafod y problemau a godwyd.  Cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar gasgliadau a fethwyd ar ddibynadwyaeth fflyd yn y cyfarfod ym mis Hydref.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a'u heilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 13. CYFLWYNIAD GAN REOLWR Y RHAGLEN YNNI UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr eitem i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa bresennol prosiectau'r rhaglen Ynni Carbon Isel.   Darparodd wybodaeth gefndirol a chyflwynodd Henry Aron, Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel Uchelgais Gogledd Cymru. Rhoddodd Mr Aron gyflwyniad ar y Rhaglen ynni Carbon Isel a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- ein Partneriaid
- amcanion
- buddsoddiad
- Bargen Dwf Gogledd Cymru - Rhaglen Ynni Carbon Isel
- Cronfa Ynni Lleol Clyfar
- Her Noddi Hydrogen
- Prosiect Trawsfynydd
- Prosiect Cydnerth (Morlais)
- Prosiect Egni

Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel i'r sylwadau gan y Cynghorydd David Healey ar gynigion Porthladd Mostyn a rhoddodd wybod am y

cyfle drwy gyllid diweddar gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau allweddol. Nododd Reolwr y Rhaglen hefyd bod cynlluniau ar gyfer prosiectau gwynt sylweddol ym môr Iwerddon ac roedd Uchelgais Gogledd Cymru'n awyddus i ymgymryd â rôl allweddol ym mhorthladdoedd Gogledd Cymru o ran adeiladu, cynnal a chadw, a gweithredu'r prosiectau, yn arbennig ym mhorthladdoedd Caergybi a Mostyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Bernie Attridge am wybodaeth ynghylch sut fyddai preswylwyr yn Sir y Fflint yn elwa o'r prosiectau. Cynghorodd y Rheolwr Rhaglen bod nifer o brosiectau yn Sir y Fflint a nododd brosiect Warren Hall fel enghraifft. Cyfeiriodd at y Rhaglen Ynni ac eglurodd y gallai'r Gronfa Ynni Lleol Clyfar gefnogi prosiectau yn Sir y Fflint a soniodd am y prosiect 'Pobl y gallaf eu helpu' a darparodd enghreifftiau o gynlluniau eraill a fyddai'n darparu cyfleoedd a buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol i ardal Sir y Fflint.

Nododd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) er efallai na fydd prosiect wedi'i leoli o fewn Sir y Fflint dan y Rhaglen Ranbarthol, roedd cadwyn gyflenwi i gynorthwyo â'r ddarpariaeth. Soniodd hefyd am y cysylltiad uniongyrchol gydag ysgolion lleol, colegau a phrifysgolion i gefnogi gwaith Uchelgais Gogledd Cymru drwy ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen gan weithlu'r dyfodol i weithio ar y rhaglenni.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill a oedd unrhyw gynlluniau i ailgylchu batris cerbydau. Cydnabyddodd y Rheolwr Rhaglen y pwynt a wnaed gan y Cynghorydd McGuill a rhoddodd wybod y byddai'r Gronfa Ynni Lleol Clyfar yn hyrwyddo cyflwyniadau ac yn codi ymwybyddiaeth o unrhyw gyfleoedd posibl cyn gynted â phosibl.

Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Chris Bithell ar brosiectau ynni llanw. Ymatebodd hefyd i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Dan Rose mewn perthynas â chyllid Ynni Lleol Clyfar, a'r hwb hydrogen.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill a oedd unrhyw gyllid ar gael i alluogi perchnogion tai i gynhyrchu eu trydan domestig eu hunain drwy osod paneli solar ar eu heiddo. Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen wybod na fyddai'r Gronfa Ynni Lleol Clyfar yn derbyn ceisiadau gan aelwydydd unigol yn sgil diffyg adnoddau ond y byddent yn ystyried ceisiadau gan brosiectau cymunedol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 14. CYNLLUN DYCHWELYD ERNES LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) yr adroddiad i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar Gynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig Llywodraeth Cymru. Darparodd wybodaeth gefndirol a nododd fod y Cynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig wedi derbyn cefnogaeth gref fel yr amlinellwyd yn ymateb y llywodraeth. Roedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cadarnhau y byddai'n gweithio gyda'r diwydiant, Llywodraeth Cymru, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, i sefydlu'r cynllun. Y dyddiad dechrau

disgwyliedig oedd Hydref 2025. Darparodd yr adroddiad drosolwg o’r cynigion a’r diweddaraf ar y camau nesaf i ddarparu’r cynllun yng Nghymru.

Roedd y Cynghorydd Vicky Perfect yn cefnogi’r cynllun.

Ymatebodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) i’r cwestiynau a’r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Dan Rose mewn perthynas â chyfraddau ailgylchu ac eglurodd mai bwriad y cynllun oedd cynyddu ailgylchu yn y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at y Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig am ddiwygiadau Pecynnu a oedd yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â’r Cynllun Dychwelyd Ernes a dywedodd y byddai adborth yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor yn y dyfodol unwaith y byddai rhagor o wybodaeth ar gael.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill p’un a oedd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn gynllun ‘ailgylchu’ neu ‘ailddefnyddio’ a gofynnodd sut fyddai’n cael ei weithredu a ph’un a fyddai’r taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i’r defnyddiwr ar ôl dychwelyd yr eitem. Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd yn glir ar hyn o bryd p’un a oedd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn gynllun ‘ailgylchu’ neu ‘ailddefnyddio’ nes bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Mynegodd y Cadeirydd bryderon am yr elfennau anhysbys mewn perthynas â gweithrediad y cynllun, yr adnoddau a oedd eu hangen, a pharodrwydd defnyddwyr i gymryd rhan. Awgrymodd y gellid diwygio’r argymhelliad yn yr adroddiad fel a ganlyn: bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a’r cynigion i ddarparu Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru. Eiliwyd hyn a chafodd ei gefnogi gan y Pwyllgor.

**<u>PENDERFYNWYD</u>**:

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a’r cynigion i ddarparu Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru.

## 15. AELODAU'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o’r wasg na’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.15am)

.................................................

**Cadeirydd**